

Amnest Rhyngwladol

# CAETHWASIAETH HEDDIW

## HAWLIAU DYNOL YN Y CWRICWLWM

Adnodd iawnderau dynol ar gyfer athrawon  
Dinasyddiaeth, Hanes, ABCh, Addysg Grefyddol  
(AG) a phynciau cysylltiol CA4

### CEFNDIR

*'Caethwasiaeth...Ni wyddwn am yr holl fathau a oedd yn bodoli. Rwy'n credu bod hynny i raddau helaeth am fod y peth mor annisgwyl. Mae'n gudd. Ni fyddai pobl yn gyffredinol yn credu bod hyn yn bosibl dan yr amodau presennol. Bydden nhw'n dweud, 'Na, rwy'n credu mai dychmygu rydych chi,' oherwydd bod hyn yn gwbl anghredadwy ...'*

**Archbishop Desmond Tutu<sup>1</sup>**

Dechreuodd y gwaharddiad ar y fasnach drawsatlantig mewn caethweision ddau gan mlynedd yn ôl eleni, a bydd llawer iawn o ysgolion yn dymuno nodi'r achlysur. Fodd bynnag, mae ffurfiau newydd ar gaethwasiaeth yn gyffredin heddiw – amcangyfrifir bod o leiaf 12 miliwn o ddynion, merched a phlant ar draws y byd ar hyn o bryd yn gaethweision. Mae'r adnodd hwn yn hybu ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r gwahanol fathau o gaethwasiaeth fodern, gyda phwyslais arbennig ar fasnachu rhyngwladol, y math o gaethwasiaeth sy'n tyfu'n fwyaf cyflym heddiw.

Mae masnachu mewn pobl yn fasnach caethweision fodern. Bydd y masnachwyr yn defnyddio twyll a grym i orfodi pobl i adael eu cartrefi. Yna caiff y rhai sy'n dioddef eu gwthio i gyflwr o gamfanteisio, er enghraifft llafur gorfodol neu buteindra. Mae cyrff sy'n ymgyrchu fel Amnest Rhyngwladol, Gwrth-Gaethwasiaeth Rhyngwladol ac UNICEF yn ceisio rhoi terfyn ar bob math o gaethwasiaeth fodern ac yn galw ar lywodraethau i weithredu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl.

<sup>1</sup> Hull, DU 1999

<sup>2</sup> Ystadegau adroddiad yr ILO (Yr International Labour Organisation, asiantaeth y Cenhedloedd Unedig (CU) sy'n gweithredu dros hawliau Llafur) 2005 - 'A global alliance against forced labour'

[www.amnesty.org.uk/education](http://www.amnesty.org.uk/education)

**DIOGELWCH Y DDYNOLIAETH**



## Yr Adnodd Hwn

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys deunyddiau ar gyfer un neu ddwy wers. Gellir defnyddio'r gweithgareddau mewn gwrs unigol neu gellir eu cymathu mewn cynllun gwaith ar themâu cysylltiol, fel Dadleuon Moesol Cyfoes, Hanes Caethwasiaeth, Masnach Deg a Phynciau Datblygiad.

Mae'r adnodd yn rhan o gyfres lawnderau Dynol yn y Cwricwlwm Amnest Rhyngwladol, sy'n hybu ymwybyddiaeth o bynciau iawnderau dynol trwy weithgareddau gwrs sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Ceir rhestr gyflawn o gysylltiadau cwricwlwm yr adnodd hwn ar ddiwedd y ddogfen hon.

Am ragor o adnoddau am ddim, gweler [www.amnesty.org.uk/education](http://www.amnesty.org.uk/education)

## Amcanion Dysgu

- Dysgu am ffurfiau amrywiol caethwasiaeth fodern.
- Archwilio pwnc cyfredol (masnachu pobl) a chyfrannu at drafodaeth grŵp ar hyn.
- Defnyddio dychymyg ac empathi i archwilio profiadau pobl sy'n wahanol i'ch profiadau chi.
- Ystyried sut gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros iawnderau dynol pobl eraill (ee. trwy wneud dewis fel defnyddwyr).
- Bod yn gyfarwydd â'r Confensiwn Ewropeaidd yn erbyn Masnachu pobl a chloriannu a yw'n ddigon pellgyrhaeddol i ddiogelu'r rhai a effeithir gan fasnachu.

## Adnoddau

Yn ogystal â chopïau o'r taflenni gwaith a ddarperir, byddwch angen:

- Mynediad at y Rhyngwrwd ar gyfer Gweithgaredd 6 Estyniad/Gwaith Cartref

## Cyfleoedd TGCh

- Ymchwilio ar y Rhyngwrwd a chyflwyniad TG (Gweithgaredd 6)

## lawnderau dynol

Mae'r erthyglau canlynol o'r Datganiad Cyffredinol o lawnderau Dynol (DCID) yn berthnasol i'r gweithgaredd hwn:

### Erthygl 4

Ni ddylai unrhyw un ddiodeff gan gaethwasiaeth na chaethiwed.

### Erthygl 5

Ni ddylai unrhyw un ddiodeff gan boenydio na thriniaeth na chosb greulon, annynol neu ddifriol.

### Erthygl 13

Mae gan bawb yr hawl i ryddid symudiad.

### Erthygl 23

Mae gan bawb yr hawl i weithio, i ddewis eu cyflogaeth yn rhydd, i delerau gwaith cyfiawn a ffafriol ac i amddiffyniad rhag diweithdra.

### Erthygl 25

Mae gan bawb yr hawl i safon byw digonol o ran ... iechyd a lles, gan gynnwys bwyd, dillad, tai, gofal meddygol a gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol.

# CAETHWASIAETH HEDDIW BRASLUN O'R WERS



## Cyflwyniad

Dweud wrth aelodau'r dosbarth y byddan nhw'n dysgu am gaethwasiaeth, heb gyflwyno'r cysyniadau o 'gaethwasiaeth fodern' na 'masnachu pobl' eto.

Egluro y byddwch yn gofyn i fyfyrwyr wneud ymarfer delweddu i ddechrau, er mwyn iddyn nhw ddechrau meddwl am y pwnc. Awgrymu eu bod yn cau eu llygaid rhag i rywbeth arall ddwyn eu sylw. Dylent wrando ar eich cwestiynau a nodi'r hyn sy'n deillio o'u dychymyg.

## GWEITHGAREDD 1

## YMARFERIAD DELWEDDU

### Cyfarwyddiadau i'r Dosbarth

Hoffwn i chi ddychmygu caethwas. I beth mae'r caethwas yn debyg? Beth mae'r caethwas hwn yn ei wneud? Yn lle mae caethweision yn byw? A ydyn nhw'n byw mewn unrhyw gyfnod arbennig mewn hanes? Ceisiwch ddychmygu eich atebion i'r cwestiynau hyn mor fanwl â phosibl (ailadrodd y cwestiynau eto).

I hybu adborth gan y dosbarth, gofynnwch iddyn nhw godi llaw os yw eu hateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau canlynol:

Codwch eich llaw os oeddech chi'n dychmygu'r caethwas fel:

- merch
- plentyn
- un yn byw heddiw
- un yn gwneud gwaith tŷ, fel coginio a glanhau?
- un yn byw yn y wlad hon
- o gefndir croenwyn

### Adborth/Amcanion y Wers

Mae'n bosibl y bydd llawer yn y dosbarth wedi dychmygu caethwas fel un a ddiodefodd o dan y fasnach gaethweision drawsatlantig, yn enwedig pan fydd y dosbarth wedi dysgu am hyn yn ddiweddar mewn gwersi Hanes.

Egluro i'r dosbarth: er bod y fasnach gaethweision wedi'i diddymu 200 mlynedd yn ôl eleni (2007), amcangyfrifir bod o leiaf 12 miliwn o ddynion, merched a phlant yn gaethweision ar draws y byd heddiw<sup>3</sup>. Mae caethwasiaeth yn bodoli hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig ac yn effeithio ar bob oed a phob cefndir ethnig/hiliol. Egluro'r amcanion dysgu trwy weddill y wers: dysgu am ffurfiau modern ar gaethwasiaeth, yn arbennig masnachu pobl, ac archwilio rhai astudiaethau achos o bobl a effeithir gan hyn.

<sup>3</sup> Ystadegau adroddiad yr ILO (Yr International Labour Organisation, asiantaeth y Cenhedloedd Unedig (CU) sy'n gweithredu am hawliau Llafur) 2005 - 'A global alliance against forced labour'

## GWEITHGAREDD 2



### BETH YW CAETHWAS?

- Fesul dau, myfyrwyr yn datgan eu diffiniadeu hunain.
- Yna'n rhannu syniadau fel dosbarth a chytuno ar ddiffiniad i'r dosbarth.
- Gall eu diffiniad gynnwys rhai o'r syniadau isod.

Caethwas yw rhywun sydd:

- Dan orfodaeth i weithio oherwydd bygythiad meddyliol neu gorfforol
- Yn eiddo i 'gyflogwr' neu dan reolaeth 'cyflogwr'
- Dan orfodaeth gorfforol neu â chyfyngiadau wedi'u gosod ar ei ryddid/ryddid symudiad
- Wedi'i ddad-wareiddio
- Wedi'i brynu a'i werthu fel 'eiddo'.



## GWEITHGAREDD 3

### ENGHREIFFTIAU O GAETHWASIAETH FODERN

- Ysgrifennwch enwau chwe gwahanol enghraifft o ‘gaethwasiaeth fodern’ ar y bwrdd yn y drefn hon:  
Llafur gorfodol  
Caethwasiaeth rywiol  
Llafur plant  
Llafur dan fond  
Priodas orfodol  
Caethwasiaeth etifeddol
- Mewn parau neu grwpiau bach, dosbarthwch daflen waith ‘Diffiniadau Caethwasiaeth Fodern’ i’r myfyrwyr.
- Gofynnwch i bob pâr neu grŵp benderfynu pa ddiffiniad sy’n cydweddu â pha enw. Dylai myfyrwyr allu canfod yr atebion trwy ddarllen y diffiniadau’n ofalus a chwilio am eiriau allweddol.

#### Atebion

- 1 Llafur plant
- 2 Llafur dan fond
- 3 Llafur gorfodol
- 4 Priodas orfodol
- 5 Caethwasiaeth etifeddol
- 6 Caethwasiaeth rywiol

#### Diffinio Masnachu Pobl

Eglurwch y bydd gweddill y wers yn canolbwyntio ar fath arall o gaethwasiaeth fodern – masnachu pobl. Ysgrifennwch ar y bwrdd y tair nodwedd allweddol, ddiffiniadol o fasnachu pobl:

- **Trawsgludo person:** mae person a fasnachwyd wedi’i symud oddi wrth ei deulu a’i gartref, naill ai i leoliad arall yn yr un wlad neu i wlad arall.
- **Trwy dwyll neu rym:** gall person a fasnachwyd fod wedi’i drawsgludo trwy ormes; gall fod wedi’i dwyllo gan gyfaill a ymddiriedai ynddo neu gan aelod o’r teulu; gall fod wedi ymuno ag asiantaeth sy’n addo gwell bywyd pan fydd ganddo/i swydd sy’n talu’n dda.
- **I sefyllfa o gamfanteisio:** gall y rhai a fasnachwyd cael eu hunain mewn llafur gorfodol neu wedi’u caethiwo i weithio mewn swydd â chyflog isel.

<sup>4</sup> Nodyn: Nid yw priodas orfodol yn gyfystyr â phriodas wedi’i threfnu. Mewn priodas wedi’i threfnu, mae cyfle i wrthod y cymar a ddewiswyd gan y rhieni. Mae priodasau gorfodol yn digwydd yn y DU. Felly, bydd trafod y pwnc hwn gyda myfyrwyr yn gofyn am elfen o sensitifrwydd rhag ofn bod myfyrwyr neu aelodau o deuluoedd myfyrwyr yn wynebu’r union bynciau hyn. Hefyd gocheler rhag stereoteipio - nid yw priodasau gorfodol yn digwydd yn unig ymhlith pobl o un cefndir hiliol neu grefyddol. Gellir cael hyd i ganllawiau’r Llywodraeth ar ‘Drin achosion o briodas orfodol’ ar: [www.publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/FCO%2075263.pdf](http://www.publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/FCO%2075263.pdf)



## DIFFINIADAU O GAETHWASIAETH FODERN

- 1 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn digwydd pan fydd y gweithiwr o dan yr oed gweithio cyfreithiol isaf. Caiff llawer o bobl ifanc eu gorfodi i weithio oherwydd eu bod yn dlawd ac yn methu â goroesi heb gyflog ychwanegol. Mae'n well gan gyflogwyr ddefnyddio gweithwyr sydd o dan yr oed gweithio cyfreithiol isaf oherwydd, o'u cymharu ag oedolion, maen nhw'n llai tebyg o wrthdystio yn erbyn cyflogau isel a thelerau gwaith anfoddhaol.
  
- 2 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn digwydd pan orfodir person i weithio er mwyn ad-dalu benthyciad. Yn achlysurol, gelwir hyn yn 'gaethwasiaeth dyled'. Yn fynych, bydd gweithwyr yn derbyn bwyd sylfaenol a llety fel 'tâl' am eu gwaith, ond efallai na fyddan nhw byth yn ad-dalu'r benthyciad – gall hon gael ei throsglwyddo dros genedlaethau.
  
- 3 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn effeithio ar bobl a recriwtiwyd yn anghyfreithlon gan unigolion, llywodraethau neu bleidiau gwleidyddol ac a orfodwyd i weithio yn erbyn eu hewyllys. Caiff y bobl sy'n dioddef y math hwn o gaethwasiaeth eu bygwth â thrais a chosbau eraill; fel arfer byddan nhw'n derbyn ychydig iawn o dâl – neu ddim – am eu gwaith.
  
- 4 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn effeithio ar ferched a gwragedd sy'n derbyn gorchymyn i briodi rhywun – a hynny heb unrhyw ddewis yn y mater. Mae gwŵr llawer iawn o'r merched a'r gwragedd hyn yn eu trin fel caethweision ac yn eu camdrin yn gorfforol.
  
- 5 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn effeithio ar bobl a anwyd i mewn i 'grŵp' y mae cymdeithas yn eu hystyried yn addas i'w trin fel caethweision. Gall y 'grŵp' hwn fod yn seiliedig ar ddosbarth, hil neu ethnigrwydd. Mae'r bobl a anwyd i mewn i'r grŵp hwn yn wynebu anffafiaeth barhaus gydol eu hoes, heb ryddid i ddewis pa fath o waith i'w wneud na phwy i weithio iddyn nhw.
  
- 6 Mae'r math hwn o gaethwasiaeth yn effeithio ar ferched a gwragedd yn bennaf, ond yn achlysurol bydd bechgyn ifanc yn dioddef yr un driniaeth ac yn cael eu gorfodi i ddarparu pa wasanaethau rhywiol bynnag a ddymunir gan eu meistri. Fel arfer, fe'u cedwir dan glo ac, fel mater o drefn bron, byddan nhw'n dioddef trais corfforol yn ogystal â chamdriniaeth rywiol. Mae rhyw heb ganiatâd wrth gwrs yn drais.



## GWEITHGAREDD 4

### ASTUDIAETHAU ACHOS O FASNACHU POBL

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bychain.
- Rhowch un astudiaeth achos o ddiodeffwr/wraig masnachu pobl bob grŵp. Sylwer: Mae llawer iawn o bobl sy'n dioddef wrth law masnachwyr pobl yn dioddef gan drais corfforol a chamdriniaeth rywiol. Os na fyddwch chi'n credu bod yr astudiaethau yn addas ar gyfer eich dosbarth, hwyrach y dewiswch eu hepgor.
- Rhowch gopi o'r Datganiad Cyffredinol o lawnderau Dynol<sup>5</sup> mewn iaith syml i bob grŵp.
- Gofynnwch i bob grŵp astudio ei astudiaeth achos ac yna ateb y cwestiynau canlynol:
  1. Pam bod y person hwn yn debygol o ddiodeff gan fasnachu pobl?
  2. Beth yn eich barn chi oedd symbyliad y masnachwyr?
  3. a) Sut driniaeth gafodd y person a fasnachwyd?  
b) Ydy hyn yn gweddu i'ch diffiniad chi o gaethwasiaeth?
  4. Pa iawnderau dynol a wrthodwyd i'r person hwn a fasnachwyd?
  5. Pam bod y person hwn yn ei chael hi mor anodd i ddianc o'r sefyllfa hon?
- Pan fydd y grwpiau wedi gorffen, gofynnwch i bob grŵp rannu eu hatebion ac felly egluro eu hastudiaeth achos i weddill y dosbarth.
- Gweler syniadau am atebion i'r cwestiynau mewn llythrennau italig isod.

#### Atebion

1. Pam bod y person hwn yn debygol o ddiodeff gan fasnachu pobl?  
Roedd ef/hi yn dlawd ac yn brin o gyfleoedd; esgeuluswyd ef/hi gan ei deulu/theulu a/neu gan gymdeithas; nid oedd unrhyw beirianwaith ar gael i gynnig cymorth i'r person hwn neu, efallai, nid oedd ef/hi yn gwybod i ba le i fynd am gymorth.
2. Beth yn eich barn chi oedd symbyliad y masnachwyr?  
Gwneud arian; roedden nhw chwilio am lafur rhad (i gyflenwi galw am nwyddau rhad.
3. a. Sut driniaeth gafodd y person a fasnachwyd?  
Disgrifiad o'r gwaith y bu'n rhaid iddo/iddi ei wneud.  
  
b. Ydy hyn yn gweddu i'ch diffiniad chi o gaethwasiaeth?  
Cyfeiriwchyn ôl at ddiffiniad y dosbarth: Os gorfodwyd y person a ddiodeffodd i weithio dan reolaeth y cyflogwr ac os cyfyngwyd ar ryddid symudiad y person, yna mae hyn yn gweddu i'r diffiniad o gaethwasiaeth a gafwyd.
4. Pa iawnderau dynol a wrthodwyd i'r person hwn a fasnachwyd?  
Erthyglau 4, 5, 13, 23, 24, 25.


<sup>5</sup> Nid yw'r ffotograffau ar y tryloywderau hyn yn dangos yr union leoliad y cludwyd y bobl hyn a fasnachwyd iddo, ond mae'r ffotograffau'n dangos lleoliadau lle cadwyd pobl eraill a fasnachwyd. Mae'r lleoliadau i gyd yn y DU ac yn rhan amlwg o arddangosfa newydd o ffotograffau a alwyd - 'Prydain Gaethwas'. Ffynhonnell yr holl Astudiaethau Achos yw UNICEF, The Independent and Eaves.



## GWEITHGAREDD 5

### TORRI'R GADWYN

- Rhowch amlinelliad o'r esiampl syml o achosion masnachu a welir isod – gellir portreadu hyn ar y bwrdd du fel diagram llif.
- Gofynnwch i'r dosbarth edrych ar bob dolen yn y gadwyn ac ystyried beth gellid ei wneud ym mhob cyfnod i atal y masnachu.
- Rhowch eu syniadau ar bapur gan ychwanegu'r awgrymiadau a wneir isod. Defnyddiwch y wybodaeth gefndirol i gynorthwyo i esbonio'r pwyntiau hyn.



### Gwybodaeth Gefndirol

#### Masnach Deg

Mae Masnach Deg yn gwarantu telerau gwaith boddhaol ac yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn derbyn pris teg am eu nwyddau. Buddsoddir hefyd mewn datblygu prosiectau sy'n mynd i'r afael â thlodi. Am fwy o wybodaeth, ewch at [www.fairtrade.net](http://www.fairtrade.net)

#### Masnach Foesol

Nid yw Masnachu Moesol yn mynd mor bell â Masnach Deg - nid yw'n gwarantu pris teg am nwyddau, nac yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau datblygu. Fodd bynnag, mae yn sicrhau bod safonau craidd telerau gwaith yn bodoli, gan gynnwys sicrhau na wneir defnydd o lafur gorfodol, llafur dan fond, llafur carcharorion anwirfoddol na llafur plant anghyfreithlon.

Os bydd myfyrwyr yn awyddus i warantu eu bod yn prynu nwyddau nad sy'n cefnogi'r fasnach fodern mewn caethweision, gallan nhw ganfod pa siopau a brandiau sy'n gefnogol i'r Fenter Masnachu Moesol trwy fynd at [www.ethicaltrade.org/Z/abteti/who/memb/list.shtml#co](http://www.ethicaltrade.org/Z/abteti/who/memb/list.shtml#co)



## GWEITHGAREDD 5 parhad



### Hysbysu'r Awdurdodau

Hwyrach y bydd myfyrwyr yn ymwybodol o bobl yn gweithio mewn gwestyau lleol neu ar ffermydd lleol sy'n ymddangos fel pe baen nhw'n gweithio dan ormes; dylai'r myfyrwyr hyn hysbysu'r heddlu am eu hamheuron.

Efallai bydd rhai o'r myfyrwyr yn y dyfodol yn dod ar draws pobl sy'n dioddef gan fasnachwyr rhyw.

Mae'n ffaith y bydd llawer o ddynion Prydeinig yn talu am wasanaethau putain ar ryw adeg; yn wir, i rai dynion ifanc gwelir hyn fel ynydiad i fod yn ddyn, neu fel arall yn rhan o 'noson o hwyl a sbri gyda'r hogiau'. Mae'n bosibl mai pwnc addas i fyfyrwyr hŷn yn unig yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwirioneddau tu ôl i buteindra, ond bydd rhannu'r wybodaeth isod yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir gan ddynion ifanc yn y dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth.

Mae gwefannau'n bodoli sydd i raddau'n adolygu ac yn graddio puteindai a'r puteiniaid sydd ynddyn nhw. Yn ddiweddar ysgrifennodd un dyn ar y wefan am un puteindy 'Peidiwch â mynd i hwn, gwastraff arian, twll o le – nid yw calon y ferch yn ei gwaith'. Yn fuan wedi hyn, gwnaed cyrch ar y puteindy a darganfuwyd bod rhai o'r merched wedi dioddef wrth law masnachwyr, yn cael eu caethiwo yn groes i'w hewyllys a'u gorfodi i gynnig rhyw. Mae hyn, wrth gwrs, yn drais.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth: pan fydd dyn wedi defnyddio gwasanaethau putain ac yn amau bod y ferch dan orfodaeth a gormes, gall y dyn hysbysu'r heddlu am ei amheuron a bydd yr heddlu'n ymatal rhag gweithredu yn ei erbyn ef ond yn ymchwilio i les y ferch.

### Y Confensiwn Ewropeaidd yn erbyn Masnachu Pobl

Ym mis Ionawr 2007 cyhoeddodd llywodraeth y DU ei hymrwymiad i arwyddo'r Confensiwn Ewropeaidd ar Fasnachu.

Mae'r ddeddf hon yn caniatáu i ddiodefwyr dan law masnachwyr:

- gael hoe fach ('cyfnod o fyfyrion') o 30 diwrnod o leiaf. Yn ystod y cyfnod hwn rhoddir cymorth iddyn nhw hybu eu hadferiad, gan gynnwys llety diogel a chymorth meddygol brys;
- gael cartref dros dro i bobl a ddiodeffodd dan law masnachwyr ond a allai fod mewn perygl wedi dychwelyd i'w gwlad, a/neu, pan fydd angen hynny - cymorth mewn achosion troseddol.

Gofynnwch i fyfyrwyr am eu barn ar yr argymhellion a wneir yn y Confensiwn. A yw'r mesurau hyn yn darparu digon o gymorth ac o ddiogelwch i bobl a ddiodeffodd dan law masnachwyr?

Mae cyrff ymgyrchu fel Amnest Rhyngwladol yn galw am ymrwymiad helaethach

- Cyfnod o fyfyrion o 90 diwrnod yn hytrach na'r lleiafswm moel o 30 diwrnod. Mae ymchwil i effaith masnachu ar gyfer gwaith domestig a chaethwasiaeth rhyw ar iechyd merched wedi dangos mai hwn yw'r isafswm cyfnod sy'n angenrheidiol i gael adferiad o'r trawma a dechrau cyrraedd cyflwr i fedru gwneud penderfyniadau deallus.
- Trwydded aros 6 mis a gellir ei adnewyddu, nid yn unig yn amodol ar

gydweithrediad mewn erlyniadau ond hefyd ar gyfer y rhai a fyddai fel arall yn dioddef gan drawma, mewn perygl neu heb gefnogaeth; darperir hyn eisoes yn yr Eidal sydd wedi arwyddo'r Confensiwn a lle gwelwyd dros 3,000 o erlyniadau am fasnachu.

- Lloches a chymorth priodol, digonol wedi'u hariannu ac wedi'u darparu gan arbenigwyr perthnasol – cymorth sy'n adlewyrchu anghenion y dioddefwyr (e.e. lloches i ferched a ddioddefodd gan fasnachwyr rhyw, asiantaethau arbenigol gofal plant ar gyfer plant ayyb.).

<sup>6</sup> Ymchwil gan weithwraig polisi iechyd y cyhoedd, Dr Cathy Zimmerman, London School of Hygiene & Tropical Medicine yn ei hadroddiad 2006 'Gwenau a Ddygwyd', wedi'i seilio ar ddwy flynedd o ymchwil yn holi merched a ddioddefodd dan law masnachwyr ar draws Ewrop.



**GWEITHGAREDD 6**



**ESTYNIAD/GWAITH CARTREF**  
**HYSBYSU POBL AM GAETHWASIAETH**  
**FODERN**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu adroddiad papur newydd ar fasnachu pobl. Gellid cyflwyno hwn fel erthygl ysgrifenedig i bapur newydd, adroddiad sain i radio, neu chwarae rhan ar gyfer eitem ddogfen i newyddion teledu. Amcan yr adroddiad yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwirionedd am fasnachu pobl a chaethwasiaeth heddiw, ac egluro'r hyn y gellir ei wneud i atal hyn. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- Diffiniad o fasnachu pobl gydag esboniadau ac enghreifftiau
- Esbonio sut mae prynu nwyddau masnach deg/masnach foesol yn hybu mynd i'r afael â masnachu pobl a mathau modern eraill o gaethwasiaeth
- Esbonio'r hyn y gallai Llywodraeth Prydain ei wneud i fynd i'r afael â masnachu pobl.

Gall myfyrwyr ddefnyddio TGCh i ysgrifennu/gyflwyno eu gwaith.

Gwefannau defnyddiol:

- [www.amnesty.org.uk/svaw](http://www.amnesty.org.uk/svaw)
- [www.crimereduction.gov.uk/toolkits/tp00.htm](http://www.crimereduction.gov.uk/toolkits/tp00.htm)
- [www.anticaethwasiaeth.org/homepage/antislavery/trafficking.htm](http://www.anticaethwasiaeth.org/homepage/antislavery/trafficking.htm)
- [www.ecpet.org.uk](http://www.ecpet.org.uk)
- [www.ilo.org](http://www.ilo.org)
- [www.fairtrade.net](http://www.fairtrade.net)
- [www.ethicaltrade.org](http://www.ethicaltrade.org)



## ASTUDIAETHAU ACHOS

### Astudiaeth Achos 1: Maryam

Wedi gweld ei gefeilles ei hun yn marw o ganlyniad i lurguniad organau rhywiol merched ychydig cyn priodas orfodol, gwrthododd Maryam fynd trwy'r un broses - a gwrthod hithau a wnaeth ei theulu. Yn alltud o'i chartref ac yn agored i gamdriniaeth, cipiwyd Maryam gan ddyn a addawodd ei chludo i Loegr a chynnig addysg iddi; mewn gwirionedd, masnachwr plant ydoedd. Cludwyd hi i Lundain a chafodd ei chloi mewn islawr lle cafodd ei threisio'n fynych fel plentyn o butain. 13 oed oedd hi.

Chwe blynedd yn ddiweddarach – bellach, o bosibl, yn 'rhy hen' i gwsmeriaid ei masnachwr - rhoddydd iddi ddogfennau ffug a chafodd ei rhyddhau o'i charchar. Ceisiodd adael y wlad ond cafodd ei harestio a'i chyhuddo o 'fod â dogfen ffug yn ei meddiant'. Treuliodd ddeng mis mewn carchar ac mae'n byw dan fygythiad y caiff ei halltudio o'r DU. Hyd yma ni fu unrhyw achos yn erbyn ei masnachwr.

\* Lurguniad organau rhywiol merched y cyfeirir ato'n fynych fel 'enwaedu merched', yw'r weithred o dorri neu waredu holl organau cenedlol allanol merched am resymau diwylliannol, crefyddol neu resymau eraill anfeddygol. Mae'r broses, a weithredir yn aml gyda siswrn neu gyllyll heb eu diheintio, yn gallu achosi niwed seicolegol a chorfforol difrifol gyda rhai merched yn marw o ganlyniad i waedlif a sioc. Amcangyfrifir bod rhwng 100 a 140 miliwn o ferched a menywod wedi dioddef llurguniad genitalia merched ( Sefydliad Iechyd y Byd [WHO]).

### Astudiaeth Achos 2: Adina

Wedi marwolaeth ei rhieni, cafodd Adina waith yn helpu ar stondin marchnad yn Kampala, Uganda. Un diwrnod, dywedodd y wraig a oedd yn gyfrifol am y stondin wrthi am fynd gyda dau ddyn. Dywedodd y wraig eu bod yn bwriadu mynd â hi i fyw dramor lle byddai'n ddiogel ac yn gallu mynychu ysgol. Gosodwyd Adina ar awyren i'r DU, cafodd ei chasglu gan ddyn yn y maes awyr, ei chludo i dŷ a'i chloi mewn cegin. Am y ddwy flynedd nesaf, gorfodwyd Adina i fyw yn yr un ystafell hon. Trwy ddringo ar gadair, gallai weld ychydig bach o ardd y tu allan. Nid oedd ganddi'r un syniad lle'r oedd hi. 'Swydd' Adina oedd glanhau a choginio i'w 'pherchennog' a gafodd gwmni dyn arall yn y man.

Ar ôl ychydig o fisoedd, ychwanegwyd elfen newydd at y 'swydd' – cludwyd Adina i fyny'r grisiau a chafodd ei threisio. Ymhen hir a hwyr, llwyddodd i ddianc pan syrthiodd un o'r dynion i drwmgwsg meddw a methu â chloi drws y cegin. Deffrodd y dyn ac erlid Adina, ond cuddiodd mewn ffos cyn llwyddo i atal car trwy chwifio'i dwylo. Gollyngodd y gyrrwr hi yng Ngorsaf yr Heddlu, Marylebone yn Llundain.



### Astudiaeth Achos 3: Jin Lai

Yn nhalaith Tsieineaidd Fujian, byddai amryw o deuluoedd yn rhoi eu plant - bechgyn yn enwedig - i'r rhai a alwyd yn gangiau 'snakehead'. Masnachwyr yw'r rhain sy'n addo cludo bechgyn i fywyd newydd mewn gwlad newydd. Mae'r pris am eu 'gwasanaeth' yn uchel - nid yw £20,000 yn anarferol. Nid oes gan y teulu, wrth gwrs, yr arian hwn. Felly mae'n rhaid i'r plentyn, wedi iddo gael ei smyglo, weithio i'r masnachwyr i dalu'r ddyled. Gall methu â thalu'r dyledion olygu bygythiadau yn erbyn teulu'r plentyn. Gelwir y math hwn o gaethwasiaeth yn 'gaethiwed dyled'.

Cludwyd Jin Lai i orsaf heddlu yng Nghaint gan rywun a oedd yn byw gerllaw'r lle bu'n cysgu yn yr awyr agored. Nid oedd yn medru gair o Saesneg ond darganfu'r heddlu'n fuan ei fod yn siarad Tsieinëeg Mandarin. Galwyd am gyfieithydd o'r Gwasanaethau Mewnffudo a Chymdeithasol. Er nad oedd ganddo unrhyw ddogfennau, dywedodd Jin Lai ei fod yn dod o Dalaith Fujian yn Tsieina a'i fod yn 16 oed.

Gosododd y Gwasanaethau Cymdeithasol ef mewn cartref maeth, ond o fewn ychydig ddyddiau, galwodd criw o ddynion heibio gan honni eu bod yn ewythrod i'r bachgen a gofyn am gael ymweld ag ef. Ni ddatgelodd y rhiant maeth gyfeiriad y bachgen a hysbysodd Wasanaethau Cymdeithasol Caint. Llwyddodd y gweithwyr cymdeithasol i gysylltu ag un o'r ewythrod honedig ar ei ffôn symudol ond gwrthododd yr 'ewythr' a datgelu'i gyfeiriad.

Cyfaddefodd Lai yn y pendraw ei fod wedi bod yn byw ac yn gweithio mewn lle bwyta. Fe'i orfodwyd i weithio saith diwrnod yr wythnos a chysgu mewn hundy dros dro gyda dynion eraill o Tsieina. Roedd wedi ffoi o'r lle bwyta a dechrau cysgu allan; dyna'r lle'r oedd ef pan gafwyd hyd iddo. Dywedodd nad oedd yn teimlo'n barod i ddatgelu'r swm oedd yn ddyledus gan ei deulu i'r bobl a'i gludodd i mewn i'r wlad. Symudwyd Lai i gartref maeth newydd a chytunodd ef i beidio â datgelu ei leoliad i'r asiantwyr.

### Astudiaeth Achos 4: Theo

Roedd Theo yn un o 54 o sipsiwn Graeca Roma, gan gynnwys 10 o ferched, a achubwyd o fferm flodau yn Penzance, Cernyw. Roedd 'trefnwyr' lleol wedi addo iddyn nhw dreuliau, bwyd, 'fflatiau go iawn' a'r dewis i adael os nad oedden nhw'n hoff o'r gwaith - am £34 y dydd.

Mewn gwirionedd, eu cartref oedd ysgubor heb wres na gwaith plymwr priodol. O ran eu bwyd, roedden nhw'n rhannu tuniau o fwyd ci. Roedd y rhai a oedd yn derbyn cyflog o gwbl yn cael chwe cheiniog am bob deuddeg coesyn blodau wedi'u codi â llaw - hwn oedd eu cyfraniad at y cynhaeaf blynyddol £50m o gennin pedr. Ond roedd 'meistr y gang' yn gwrthod â thalu eraill, gan honni eu bod mewn dyled iddo am y gost o'u cludo o Wlad Groeg. Pan oedden nhw'n gwneud cais i ddianc, anfonodd griw o ddynion cyfnerth i'w baeddu â ffyn a'u bygwth â drylliau i'w cadw i weithio. O'r diwedd llwyddodd ymgais arall. Roedd y cennin pedr yn mynd at gwmni a oedd yn darparu blodau i'w gwerthu mewn archfarchnadoedd enwog yn y DU.



## Astudiaeth Achos 5: Danielle

Trawsgludwyd Danielle o Lithuania pan oedd hi'n 15 oed. Mae hi'n dweud ei bod cyn hynny'n byw'n ddedwydd gyda'i theulu a'i ffrindiau. Roedd un o'i ffrindiau wedi cael galwad gan ddynes nad oedd hi'n ei hadnabod oedd yn cynnig swydd mewn bar yn Llundain dros wyliau'r haf. Gofynnodd y ffrind i Danielle ymuno â hi a chytunodd am ei bod yn awyddus i gael arian ychwanegol. Gofynnwyd i Danielle deithio gyda dyn i'r DU.

Yn y maes awyr roedd dynion o Albania a gwraig o Lithuania yno i gyfarfod Danielle a'i ffrind. Rhoddwyd £3,500 i'r dyn a oedd wedi teithio gyda Danielle. Yn y fan a'r lle, sylweddolodd Danielle ei bod wedi'i gwerthu. Roedd hi'n ysu am ddianc ond nid oedd hi'n adnabod unrhyw un yn Lloegr ac nid oedd yn medru'r Saesneg.

Cludwyd hi i Birmingham a dywedwyd wrthi y byddai'n byw mewn fflat gyda'r dyn o Albania a oedd wedi'i phrynu. Cafodd ei threisio a'i churo ganddo droeon. Yna aeth â hi i buteindy a dweud wrthi am gael rhyw gyda'r cwsmeriaid. Roedd Danielle yn rhy ofnus i wrthod. Rhoddodd un o'r merched eraill a oedd yn gweithio yno sgert gwta a thop isel i Danielle a dweud bod yn rhaid iddi eu gwisgo. 'Paid â meddwl am geisio dianc,' meddai. 'Pa le bynnag y byddi'n ceisio rhedeg, fe gân nhw afael ynot ti.'

Saeson oedd y cwsmeriaid. Mae hi'n credu bod y cwsmeriaid yn gallu gweld ei bod yn anhapus ond ni wnaeth yr un ohonyn nhw hyd yn oed gynnig ei helpu. Wedi sawl mis o weithio yn y puteindy, llwyddodd Danielle i ddianc trwy ddweud wrth berchen y puteindy ei bod yn mynd allan i'r siop leol. Cysylltodd â'r heddlu ac fe'i gosodwyd gyda theulu maeth ac yna cafodd awyren yn ôl i Lithuania.

Erbyn hyn mae Danielle yn 18 oed ac yn ceisio ailadeiladu ei bywyd mewn rhan arall o Lithuania gyda'i chariad, ond mae'n dal i fod ag arswyd y bydd y masnachwyr yn dod o hyd iddi eto. Mae hi'n dweud 'Mae'r hyn a wnaethon nhw i mi wedi trawsnewid fy mywyd i am byth. Rwy'n ceisio symud ymlaen ond mae hynny'n anodd iawn ar ôl i chi gael eich gwerthu.'

# Y DATGANIAD CYFFREDINOL O IAWNDERAU DYNOL (1948)

(Fersiwn Pobl Ifanc)



- 1 Mae pob un wedi'i eni'n rhydd. Mae gennym ni i gyd ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylai pawb gael eu trin yn yr un modd.
- 2 Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bawb; pa un a ydym yn gyfoethog neu'n dlawd, pa wlad bynnag rydym ni'n byw ynnddi, pa ryw neu liw bynnag ydym, pa iaith bynnag rydym yn ei siarad, beth bynnag rydym yn ei feddwl neu'n ei gredu.
- 3 Mae gan bob un yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch.
- 4 Nid oes gan unrhyw un hawl i'n gwneud yn gaethweision. Ni allwn wneud unrhyw un arall yn gaethwas.
- 5 Nid oes gan unrhyw un hawl i'n brifo nac i'n harteithio.
- 6 Mae gan bob un ohonom yr un hawl i ddefnyddio'r gyfraith.
- 7 Mae'r gyfraith yr un i bawb. Rhaid iddi ein trin i gyd yn deg.
- 8 Gallwn i gyd ofyn i'r gyfraith ein helpu pan na fyddwn yn cael ein trin yn deg.
- 9 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n rhoi mewn carchar heb reswm digonol, i'n cadw yno nac i'n hanfon i ffwrdd o'n gwlad.
- 10 Os byddwn ni'n gorfod wynebu treial, dylai hwn fod yn gyhoeddus. Ni ddylai'r rhai sy'n ein rhoi ar dreial wrando ar unrhyw un sy'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud.
- 11 Ni ddylai unrhyw un gael ei feio am wneud rhywbeth hyd nes bydd hyn wedi'i brofi. Os bydd pobl yn dweud ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg, mae gennym hawl i ddangos nad oedd hyn yn wir. Ni ddylai unrhyw un ein cosbi am rywbeth nad ydym wedi'i wneud, nac am wneud rhywbeth nad oedd yn erbyn y gyfraith pan oedden ni'n gwneud hyn.
- 12 Ni ddylai unrhyw un geisio dwyn anfri ar ein henw da. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i'n cartref, agor ein llythyrau na'n hafonyddu ni na'n teulu, heb reswm gwbl ddigonol.
- 13 Mae gan bob un ohonom yr hawl i fynd lle bynnag yr ydym yn dymuno yn ein gwlad ein hunain ac i deithio dramor fel yr ydym yn dymuno.
- 14 Os ydym yn ofni cael ein cam-drin yn ein gwlad ein hunain, mae gan bob un ohonom yr hawl i ddianc i wlad arall i fod yn ddiogel.
- 15 Mae gan bob un ohonom yr hawl i fod yn perthyn i wlad.
- 16 Mae gan bob oedolyn yr hawl i briodi a chael teulu os bydd yn dymuno hynny. Mae gan ddynton a merched yr un hawliau pan fyddan nhw'n briod a phan fyddan nhw ar wahân.
- 17 Mae gan bawb yr hawl i fod yn berchen ar bethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un gymryd ein pethau oddi wrthym heb reswm digonol.
- 18 Mae gan bob un ohonom yr hawl i gredu yn yr hyn rydym am gredu ynndo, i gael crefydd neu i'w newid os byddwn ni'n dymuno.
- 19 Mae gan bob un ohonom yr hawl i wneud ein meddwl i fyny, i feddwl yr hyn rydym yn ei ddymuno, i ddweud yr hyn rydym yn ei feddwl ac i rannu ein syniadau gyda phobl eraill ble bynnag maen nhw'n byw, drwy lyfrau, radio, teledu ac mewn dulliau eraill.
- 20 Mae gan bob un ohonom yr hawl i gyfarfod ein ffrindiau ac i weithio gyda'n gilydd mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â gr p os nad ydym yn dymuno gwneud hynny.
- 21 Mae gan bob un yr hawl i gymryd rhan yn llywodraeth ein gwlad. Dylai pob oedolyn gael dewis eu harweinwyr eu hunain o bryd i'w gilydd a dylen nhw gael pleidlais gudd.
- 22 Mae gan bob un ohonom hawl i gartref, i gael digon o arian i fyw a chymorth meddygol os byddwn ni'n sâl. Dylai pob un ohonom gael yr hawl i fwynhau cerddoriaeth, celfyddyd, crefft, chwaraeon ac i wneud defnydd o'n sgiliau.
- 23 Mae gan bob unigolyn hawl i swydd, i gael cyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.
- 24 Mae gan bob un ohonom yr hawl i orffwys o waith ac ymlacio.
- 25 Mae gan bob un ohonom yr hawl i fywyd da, gyda digon o fwyd, diillad,

- tai a gofal iechyd. Mae gan famau a phlant, pobl heb waith, yr henoed a phobl anabl yr hawl i gael cymorth.
- 26 Mae gan bob un ohonom yr hawl i addysg ac i orffen ysgol gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem allu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd o'n holl sgiliau. Dylem ddysgu am y Cenhedloedd Unedig a sut i gytuno gyda phobl eraill a pharchu eu hawliau. Mae gan ein rhieni'r hawl i ddewis sut a beth fyddwn yn ei ddysgu.
- 27 Mae gan bob un ohonom yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain ac i fwynhau pethau y mae gwyddoniaeth ac addysg yn eu cynnig.
- 28 Mae gennym hawl i heddwch a threfn er mwyn i ni oll fwynhau hawliau a rhyddid yn ein gwlad ein hunain a thros y byd.
- 29 Mae dyletswydd arnom i bobl eraill a dylem ddiogelu eu hawliau a'u rhyddid.
- 30 Ni all unrhyw un fynd â'r hawliau hyn a'r rhyddid oddi wrthym.





# CYSYLLTIADAU CWRICWLAIDD



## Lloegr

Cyfraniad ysgol gyfan i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol disgyblion:

### Datblygiad Ysbrydol

- hunan barch a pharch tuag at eraill
- ymwybyddiaeth o empathi, consyrn a thosturi gydag eraill
- gallu i ddangos gwrhydri a dyfalbarhad wrth amddiffyn eu hamcanion, eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u credoau
- parodrwydd i herio'r oll a allai gyfyngu'r enaid dynol: niwtraliaeth foesol neu ddfaterwch, anghyfiawnder, hiliaeth a mathau eraill o anffafiaeth

### Datblygiad Moesol

- gallu i feddwl drwodd ganlyniadau eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd pobl eraill
- parodrwydd i fynegi eu safbwynt ar bynciau moesol a gwerthoedd personol
- gallu i ffurfio barn gyfrifol a rhesymegol ar broblemau moesol
- ffordd o fyw ystyriol

### Datblygiad Cymdeithasol

- herio gwerthoedd gr p neu gymuned ehangach, pan fydd angen - a gwneud hynny mewn modd priodol
- myfrio ar eu cyfraniad eu hunain i gymdeithas a byd gwaith
- gwerthfawrogi hawliau a chyfrifoldebau unigolion yn y cyd-destun cymdeithasol ehangach
- deall y syniad o gyd-ddibyniaeth mewn cymdeithas gynyddol gymhleth.

## Dinasyddiaeth CA4

### 1. Gwybodaeth a dealltwriaeth

Dylid addysgu myfyrwyr am:

- yr hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol a dynol sy'n tanategu cymdeithas a sut maen nhw'n berthnasol i ddinasyddion, gan gynnwys swyddogaeth a gweithrediadau'r systemau cyfiawnder troseddol a sifil
- y cyfleoedd sydd i unigolion a grwpiau gwirfoddol i gyflawni newid cymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol, yn Ewropeaidd ac yn rhyngwladol
- hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr, cyflogwyr a chyflogai
- berthynas y DU ag Ewrop, gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd, a'r berthynas â'r Gymanwlad a'r Cenhedloedd Unedig
- bynciau a heriau ehangach cyd-ddibyniaeth a chyfrifoldeb byd-eang, gan gynnwys datblygiad cynaliadwy ac Agenda Lleol 21.

### 2. Datblygu sgiliau holi a chyfathrebu

Dylid addysgu myfyrwyr i:

- ymchwilio i bwnc, problem neu ddigwyddiad amserol, gwleidyddol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol neu ddiwylliannol trwy ddadansoddi gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys ffynonellau TGCh eu sail, a dangos ymwybyddiaeth o'r defnydd a'r camddefnydd o ystadegau
- fynegi, cyfiawnhau ac amddiffyn yn llafar neu'n ysgrifenedig farn personol am bynciau, problemau neu ddigwyddiadau
- gyfrannu at drafodaethau gr p a thrafodaethau agoriadol dosbarth, a chyfrannu at ddadleuon ffurfiol.

### 3. Datblygu sgiliau cyfranogi a gweithredu cyfrifol

Dylid addysgu myfyrwyr i:

- ddefnyddio eu dychymyg i ystyried profiadau pobl eraill ac ystyried, mynegi, esbonio a gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau sy'n wahanol i'w safbwynt hwy.

## CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM parhad



Addysg Grefyddol ar gyfer disgyblion 14-19 oed

### 2. Dysgu oddi wrth grefyddau:

Dylid addysgu myfyrwyr i:

- fyfyrion, mynegi a chyfiawnhau eu safbwynt eu hunain yng ngoleuni'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am grefydd a'u hastudiaeth o gwestiynau crefyddol, athronyddol, moesol ac ysbrydol
- ddatblygu eu gwerthoedd a'u safbwyntiau eu hunain er mwyn gwerthfawrogi eu hawliau a'u cyfrifoldebau yng ngoleuni'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am grefydd
- berthnasu eu haddysg grefyddol i'r byd ehangach, gan fagu hunanddibyniaeth i baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn
- ddatblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol mewn amrediad o yrfaeod ac mewn bywyd fel oedolyn yn gyffredinol, yn arbennig sgiliau ymholi beirniadol, datrys problemau'n greadigol a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyfryngau.

### Hawl Dyniaethau CA4 (Daearyddiaeth a Hanes)

Mae'r Hawl Dyniaethau CA4 yn mynnu bod disgyblion yn cael 'y cyfle i adolygu a myfyrion ar broblemau moesol sy'n ymhlyg mewn pynciau cyfredol'. Trowch at eich maes llafur penodol TGAU Daearyddiaeth a Hanes am gysylltiadau ychwanegol â'r cwricwlwm i bynciau fel Datblygiad (Daearyddiaeth) a Chaethwasiaeth (Hanes).

### Gogledd Iwerddon

Mae'r cysylltiadau cwricwlaidd yn berthnasol i ganllawiau cyfredol Cwricwlwm Diwygiedig Gogledd Iwerddon

### Dysgu ar gyfer Bywyd a Gwaith: Llinyn Dinasyddiaeth Leol a Byd-eang:

lawnderau dynol a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Dylai Pobl Ifanc gael cyfle i:

- Archwilio pwysigrwydd cynnal safonau iawnderau dynol mewn cymdeithasau democrataidd modern, gan gynnwys ateb gofynion sylfaenol, amddiffyn unigolion a grwpiau o bobl
- Archwilio egwyddorion allweddol iawnderau dynol fel yr amlinellir yn y Datganiad Cyffredinol o lawnderau Dynol
- Archwilio senarios lleol a byd-eang lle troseddwyd yn ddifrifol yn erbyn iawnderau dynol
- Archwilio egwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol a swyddogaeth unigolion, cymdeithas a llywodraeth o ran hyrwyddo'r egwyddorion hyn.

### Yr Alban

Mae'r cysylltiadau cwricwlaidd yn berthnasol i'r canllawiau cyfredol ar gyfer y Cwricwlwm Rhagoriaeth newydd.

Mae'r gweithgaredd yn cefnogi datblygiad myfyrwyr fel:

#### Dysgwyr llwyddiannus sy'n gallu:

- Dysgu'n annibynnol ac fel rhan o gr p
- Arfarnu'n rhesymegol

#### Dinasyddion cyfrifol sy'n gallu:

- ffurfio dewisiadau a phenderfyniadau deallus
- datblygu safbwyntiau deallus a moesol ar bynciau dyrys.

## CYSYLLTIADAU CWRICWLAIDD parhad



### Cymru

#### ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL CA4

Dylai darparu Addysg Wleidyddol a Chymdeithasol alluogi disgyblion i:

- Werthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal a pharchu urddas pawb
- Gael eu cyffroi gan anghyfiawnder, cam-fasnachu a gwadu iawnderau dynol
- Wrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- Drosglwyddo'u teimladau a'u safbwyntiau'n effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd
- Ffurio barn foesol a datrys problemau a dadleuon moesol
- Weithio'n annibynnol ac mewn cydweithrediad fel ei gilydd.

Agwedd Gymunedol

Dylai Disgyblion:

- Wybod sut mae systemau democrataidd yn gweithio a deall sut mae dinasyddion unigol, y farn gyhoeddus, grwpiau lobio a'r cyfryngau'n gallu cyfrannu a chael dylanwad ac effaith
- Feddu ar ymwybyddiaeth fyd-eang ddatblygiadol o bynciau a digwyddiadau cyfredol gan gynnwys iawnderau dynol.